**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 4 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.

**Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB**

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei diogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae'n ddyletswydd o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i Gyngor Gwynedd sefydlu trefniadau sy'n sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae'n gweithredu ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o agweddau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang yma, mae Cyngor Gwynedd hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo a mabwysiadu côd Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government*. Mae copi o'r côd i'w gael ar ein gwefan, neu gellir derbyn copi trwy ysgrifennu at Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH. Mae'r datganiad yma yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r côd ac mae hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 4(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reoli mewnol.

**Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Wrth sefydlu ei fframwaith, mae Cyngor Gwynedd yn diffinio Llywodraethu fel "***gwneud y pethau cywir yn y ffordd gywir"***.

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod yn ei le yng Nghyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2013 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

**Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Mae Côd Llywodraethu Lleol Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar chwech egwyddor craidd Fframwaith CIPFA/SOLACE ar gyfer llywodraethu corfforaethol mewn awdurdodau lleol a'u hegwyddorion cefnogol, oedd yn eu tro wedi eu haddasu o *Safon Genedlaethol ar Gyfer Llywodraethu Da mewn Gwasanaethau Cyhoeddus* a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Annibynnol ar Lywodraethu Da mewn Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2004. Mae Fframwaith CIPFA/SOLACE yn nodi'r anghenion ar gyfer cwrdd a'r egwyddorion a'r hyn a ddylid ei adlewyrchu mewn côd llywodraethu lleol.

Paratowyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yma yn unol â'r adendwm i Fframwaith CIPFA/SOLACE a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2012.

Mae elfennau allweddol y systemau a phrosesau sy'n cwmpasu trefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd fel a ganlyn:

**3.1 Gwerthoedd, Gweledigaeth ac Ansawdd Gwasanaeth**

***Gwerthoedd y Cyngor***

Gwerthoedd Cyngor Gwynedd yw:

- **Gwasanaethu**
- **Positif**
- **Gweithio fel tîm**
- **Gwerth am arian**
- **Parch**

***Nod y Cyngor***

Nod y Cyngor yw sicrhau **Y Gorau i Bobl Gwynedd Heddiw ac Yfory**. Hwn yw'r nod parhaus sy'n llywio gwaith y Cyngor ar bob lefel a bydd y Cyngor yn parhau i fesur i ba raddau rydym yn cyflawni hyn o ddydd i ddydd.

***Cynllun Strategol***

Wrth fabwysiadu ei Gynllun Strategol blwyddyn ar gyfer 2012/13, cytunodd y Cyngor y byddai wedyn yn mabwysiadu Cynllun Strategol ar gyfer gweddill oes y Cyngor, o 2013 i 2017.

Datblygwyd Cynllun Strategol 2013 – 2017 mewn sawl cam:

- Cam Un - Asesu Anghenion a Sganio'r Gorwel, gan adnabod y prif yrwyr cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sydd yn dylanwadu'r Cyngor a'r Sir nawr ac sy'n debygol o wneud hynny yn y blynyddoedd nesaf.
- Cam Dau - defnyddio data a gwybodaeth allweddol fel sail i adnabod blaenoriaethau drafft ar gyfer y cynllun.
- Cam Tri - Cadarnhau'r Blaenoriaethau a Datblygu Cynigion Cyflawni

Mabwysiadwyd Cynllun Strategol 2013-2017 gan y Cyngor llawn ar 2 Mai 2013.

Yn ein cyflwyniad i Gynllun Strategol 2013-2017, rydym yn datgan:

"Ar gyfer y cyfnod 2013 - 2017, y bygythiad mwyaf i gynaliadwyedd a gwelliant gwasanaethau yw'r cyfuniad o alw cynyddol am wasanaethau a'r gostyngiad sylweddol yn adnoddau'r Cyngor. Mae'r cynllun hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r her hon drwy newid model busnes y Cyngor yn sylfaenol. Un nodwedd allweddol, drwy gydol y cynllun, yw'r angen i weithio'n fwy effeithiol gyda phartneriaid, unigolion a chymunedau i atal a lleihau'r galw am wasanaethau drwy ymyrryd yn gynnar, fel bo problem yn amlygu ei hun, a chefnogi mwy o bobl i helpu eu hunain. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen i ni newid y ffordd rydym yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau a dod yn Gyngor sy'n rhoi'r dinesydd yng nghanol popeth rydym yn ei wneud. Yn

ogystal, bydd angen i ni fod yn fwy arloesol yn y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau er mwyn cyfrannu at arbedion effeithlonrwydd mwy sylweddol a lleihau toriadau gwasanaeth. Rydym yn hyderus y gallwn ni yng Ngwynedd, adeiladu ar rinweddau ein dinasyddion, cymunedau a gweithlu er mwyn goresgyn yr heriau hyn a manteisio ar y cyfleoedd cywir. Felly, y weledigaeth gyffredinol ar gyfer y cyfnod hwn yw:

**Cefnogi pobl Gwynedd i ffynnu mewn cyfnod anodd"**

***Ansawdd Gwasanaeth***

Mae'r Cynllun Strategol yn nodi cyfres o weledigaethau maes sy'n cyfrannu at y brif weledigaeth. Mae pob blaenoriaeth o fewn y Cynllun Strategol yn destun sylw gan Banel Cyflawni, sy'n cael ei arwain gan yr Aelod Cabinet perthnasol. Bwriad y paneli cyflawni yw cynorthwyo'r Aelod Cabinet i gyflawni'r addewidion cyhoeddus yn y Cynllun Strategol.

Mae'r trefniadau ar gyfer adnabod mesuryddion ac uchelgais perfformiad wedi eu datblygu ar draws yr awdurdod.

Mae trefniadau craffu'r Cyngor yn rhan allweddol o'i drefniadau llywodraethu. Ers symud trefniadau gwleidyddol y Cyngor i drefn Cabinet, mae'r pwyllgorau craffu, sydd yn pennu eu rhaglenni gwaith eu hunain yn flynyddol, yn blaenoriaethu sylw i nifer cymharol fychan o eitemau dros y flwyddyn. Mae'r pwyllgorau craffu yn edrych ar y materion hynny yng nghyd-destun eu heffaith ar drigolion a felly mae ansawdd y gwasanaethau yn elfen allweddol o hynny. Eleni hefyd, mae'r pwyllgorau craffu wedi cychwyn ar drefn newydd o gynnal ymchwiliadau craffu sydd yn edrych ar faes mewn manylder a llunio argymhellion gwella yn eu cylch.

***Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor***

Dangosodd gwaith hunanasesiad gan y Cyngor fod angen newid ei ddiwylliant mewnol er mwyn **"gwneud Pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud"**. Mae'r Cynllun Strategol yn nodi'r canlyniadau canlynol y disgwylir erbyn 2017 yn y maes yma:

- **Un weledigaeth gyffredin a chlir i bawb yn y Cyngor (a elwir yn "Ffordd Gwynedd") ynglŷn â'r diwylliant corfforaethol sydd ei angen os am sicrhau fod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud, gan sicrhau gwreiddio'r weledigaeth honno drwy'r Cyngor.**
- **Trefniadau ymgysylltu addas er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau sydd o bwys i bobl Gwynedd ac er mwyn medru blaenoriaethu ein hadnoddau'n briodol.**
- **Gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau a cheisio lleihau effaith toriadau ar bobl Gwynedd.**
- **Mwy o bobl Gwynedd ar eu hennill yn sgil cyflwyno cynlluniau sydd yn manteisio ar faint y Cyngor.**
- **Gwasanaethau ataliol effeithiol wedi eu sefydlu, er mwyn lleihau'r galw ar wasanaethau drwy atal ac ymyrraeth gynnar.**

## 3.2 Defnydd o Adnoddau a Gwerth am Arian

***Strategaeth Ariannol***

Yn ogystal â'r Cynllun Strategol, mae'r Cyngor hefyd wedi mabwysiadu Strategaeth Ariannol am y cyfnod 2013/14 – 2016/17, yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2013. Mae'r Strategaeth Ariannol yn seiliedig ar ragolwg o Grant Llywodraeth Cymru, cynnydd blynyddol yn y Dreth Cyngor, rhaglenni arbed, a drwy sefydlu gwasanaethau ataliol effeithiol, er mwyn lleihau'r galw ar wasanaethau drwy atal ac ymyrraeth gynnar.

Yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol 2013 ar Gyngor Gwynedd, nododd Archwilydd Cyffredinol Cymru, **"*Mae'r Cyngor yn cael budd o arweinyddiaeth ariannol gadarn ac mae wedi profi cryn lwyddiant o ran cynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol. Mae'r dull hwn o weithredu wedi golygu na fu angen gwneud penderfyniadau byrbwyll na thoriadau i wasanaethau er mwyn mantoli'r gyllideb, ac mae wedi galluogi'r Cyngor i wneud arbedion o ran gwasanaethau mewn ffordd gynlluniedig a strwythuredig dros gyfnod o amser*"**.

***Trefniadau ataliol***

Mae'r angen i sefydlu trefniadau ataliol effeithiol wedi ei gynnwys yn y Cynllun Strategol gan fod Cyngor Gwynedd yn cydnabod:

- Bydd yr her gyllidol sy'n wynebu'r Cyngor yn dwysau ac yn para'n hirach na'r disgwyl ar y cychwyn.
- Y byddai canolbwyntio ar fesurau effeithlonrwydd yn unig yn annigonol i gau'r bwlch cyllidol a bod angen gwneud toriadau sylweddol i wasanaethau.
- Awgrymu bod angen dull amgen i leihau ac oedi gwneud toriadau yn y gwasanaethau, sef rheoli'r galw.
- Fod tystiolaeth lefel uchel y gall hyn fod yn opsiwn posibl i'r dyfodol.
- Bydd rhaid newid rhai pethau er mwyn cynyddu'r tebygrwydd i'r strategaeth o reoli'r galw fod yn llwyddiannus.

Mabwysiadwyd dogfen strategol gychwynnol gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2013. Cymeradwywyd y strategaeth fel sail i:

- Gynnal trafodaethau ffurfiol gyda phartneriaid yn lleol, rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Baratoi adnoddau cyllidol yn fewnol ac yn allanol i gefnogi'r cam o gynllunio a gweithredu'r strategaeth.
- Ennill y sgiliau a'r gallu angenrheidiol i fod yn llwyddiannus.
- Werthuso'r hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd ac adnabod bylchau yn y ddarpariaeth.
- Gysylltu â'r cyhoedd er mwyn sefydlu dealltwriaeth gwell o sut allai dinasyddion a gwasanaethau cyhoeddus weithio'n well â'i gilydd er mwyn ymdopi â'r her gyllidol.
- Sefydlu trefniadau llywodraethu priodol, sy'n adeiladu ar strwythurau presennol, lle'n bosibl, er mwyn sicrhau cynnydd llwyddiannus.

## 3.3 Rolau, Cyfrifoldebau a Gwneud Penderfyniadau

***Y Cabinet***

Yn sgil Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, cyflwynwyd addasiadau pell-gyrrhaeddol i’r Cyfansoddiad i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 17 Mai 2012. Roedd y Cyngor wedi mabwysiadu model Arweinydd a Chabinet, yn unol â’r dewisiadau oedd ar gael iddo o dan y Mesur, yn ei gyfarfod ar 20 Hydref 2011, i ddod yn weithredol yn dilyn etholiad Mai 2012. Yn sgil y newidiadau, mae hawliau penderfynu ar a gweithredu mwyafrif helaeth o swyddogaethau’r awdurdod yn trosglwyddo oddi wrth y Cyngor i’r Weithrediaeth, sef Cabinet y Cyngor.

Mae'r Cabinet yn cynnwys 10 Cynghorydd ac yn cael ei gadeirio gan Arweinydd y Cyngor. Mae gan bob un o’r Aelodau bortffolio penodol o gyfrifoldeb am feysydd o fewn gwasanaethau’r Cyngor sydd wedi eu diffinio’n glir.

Ers cyflwyno Mesur 2011, mae’r Cyngor wedi cynnal adolygiadau o’i holl drefniadau llywodraethu er mwyn cydymffurfio gyda’r Mesur. Mae hyn yn cynnwys newidiadau sylfaenol yn y Rôl Weithredol, gyda Cabinet wedi cymryd lle’r Bwrdd. Mae hefyd wedi golygu adolygiadau a newidiadau yn rolau Trosolwg a Chraffu, ac Archwilio, a sefydlu rôl newydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sydd wedi ei ddirprwyo i’r Pennaeth Strategol a Gwella.

***Cynlluniau dirprwyo i bwyllgorau, aelodau Cabinet a swyddogion***

Mae Rhan 3 (Cyfrifoldeb am Swyddogaethau) Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys manylion am y cynlluniau dirprwyo hawliau i bwyllgorau, aelodau a swyddogion y Cyngor ynghyd â dosbarthiad o swyddogaethau nad oeddynt yn gyfrifoldeb y Cabinet.

Mae’r Cyfansoddiad hefyd yn cynnwys protocol ynghylch dyletswyddau a chyfrifoldebau aelodau. Mae'r protocol yn manylu ar bwrpas a dyletswyddau'r aelodau, Cadeirydd, Is-gadeirydd, aelodau Cabinet ac Arweinydd y Cyngor.

***Rheolau Gweithdrefn***

Yn ogystal â hyn, mae Cyfansoddiad y Cyngor yn parhau i gynnwys rheolau pendant er mwyn gweithredu a gwneud penderfyniadau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Rheolau Gweithdrefn y Cyngor
- Rheolau Gweithdrefn Contractau
- Rheolau Gweithdrefn Ariannol
- Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu
- Rheolau Gweithdrefn Mynediad ar wybodaeth pwyllgorau
- Strategaeth trosolwg a chraffu
- Cynlluniau dirprwyo o fewn y Cyfansoddiad
- Protocol ar gyfer cysylltiadau Aelod / Swyddog

***Swyddogion Statudol***

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu strwythur rheoli sy'n cynnwys Prif Weithredwr (sydd hefyd yn Bennaeth y Gwasanaeth Taledig) a thri Cyfarwyddwr Corfforaethol. Gyda'i gilydd, nhw yw Tîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi enwebu'r canlynol i weithredu swyddogaethau statudol:

- Swyddog Monitro yn unol ag Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 – **Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol**
- Swyddog Cyllid Cyfrifol yn unol ag Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 – **Pennaeth Cyllid**
- Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn unol ag Adran 8 Mesur Llywodraeth Lleol (Cymru) 2011 – **Pennaeth Strategol a Gwella**
- Cyfarwyddwr y Gwasnaethau Cymdeithasol yn unol ag Adran 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 – **Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden** tan 30 Mai 2013, pan symudwyd y rôl statudol oddi wrth y Pennaeth Adran i lefel **Cyfarwyddwr Corfforaethol** yn y strwythur uwch reolwyr. Mae'r swyddogaeth wedi ei roi i Gyfarwyddwr Corfforaethol penodol.
- Cyfarwyddwr Arweiniol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn unol ag Adran 27 Deddf Plant 2004 – **Cyfarwyddwr Corfforaethol** penodol.
- Prif Swyddog Addysg yn unol ag Adran 532 Deddf Addysg 1996 – **Pennaeth Addysg**

Mae Rhan 5 (Codau a Phrotocolau) Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys protocolau ar weithredu dyletswyddau statudol y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid a Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

***Cronfa Bensiwn Gwynedd***

Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer ei weithwyr ei hun ynghyd â gweithwyr 24 o gyrff eraill sydd ar yr atodlen (gan gynnwys 2 Awdurdod Lleol) a 16 o gyrff a ganiateir. Caiff adroddiad blynyddol ar gyfer y gronfa ei baratoi yn unol â gofynion Rheoliad 34 Rheoliadau Cynllun Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddiaeth) 2008.

### 3.4 Safonau a Chodau Ymddygiad

***Codau Ymddygiad***

Rhaid i holl swyddogion ac Aelodau Cyngor Gwynedd ymddwyn mewn ffordd sydd yn unol â'r Codau Ymarfer ar gyfer Aelodau a Swyddogion, sydd wedi eu cynnwys o fewn Cyfansoddiad y Cyngor a'r Côd Llywodraethu Lleol.

Mae'r Côd Ymddygiad ar gyfer aelodau'r Cyngor yn cael ei arwain gan y Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001. Mae'r Gorchymyn yn nodi'r egwyddorion sydd i lywodraethu ymddygiad aelodau awdurdod yng Nghymru.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu "Gorchymyn Côd Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001" fel côd ymddygiad ar gyfer ei holl staff.

***Safon Gwynedd***

Mabwysiadwyd dogfen "Safon Gwynedd" gan y Cyngor llawn ar 21 Hydref 2010. Mae'r ddogfen yma yn egluro'r safonau ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth gynghorwyr Cyngor Gwynedd wrth ymdrin â'i gilydd. Dylid ei darllen ar y cyd hefo'r Côd Ymddygiad i Aelodau a'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog. Mae'n ychwanegu at y dogfennau hynny ac nid tynnu oddi wrthynt.

***Rheolau gweithdrefn y Pwyllgor Safonau***

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu "Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001" i reoli gweithdrefnau'r Pwyllgor Safonau.

### 3.5 Rheoli Risg, Rheolaeth Fewnol a Delio ag Afreoleidd-dra

***Polisi Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredigaeth***

Mabwysiadwyd y Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredigaeth 2013 – 2016 gan y Pwyllgor Archwilio ar 29 Ionawr 2013. Pwrpas y Strategaeth yw datgan agwedd y Cyngor tuag at dwyll a llygredd a'r rhai sydd yn gweithredu, neu'n ceisio gweithredu, twyll neu lygredd yn erbyn Cyngor Gwynedd a'r trethdalwr.

***Ymdrin â Rhoddion a Lletygarwch***

Mae Rhan 5 (Codau a Phrotocolau) Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys:

- Polisi Rhoddion a Lletygarwch i Swyddogion
- Protocol Rhoddion a Lletygarwch - Aelodau
- Polisi Buddiannau Swyddogion

***Cofrestr Risgiau Corfforaethol***

Mae'r Cyngor yn ystyried ac yn ymdrin â'i risgiau ar 3 'haen', sef Risgiau Corfforaethol (risgiau strategol sydd yn derbyn ystyriaeth wrth ddarparu'r Cynllun Strategol), Risgiau Trawsadrannol (risgiau gweithredol sydd yn effeithio ar bob adran, neu'r mwyafrif o adrannau) a Risgiau Adrannol (risgiau allweddol sy'n benodol i un adran). Yn ogystal â hyn rhoddir ystyriaeth i risgiau prosiect fel rhan o'r gyfundrefn rheoli prosiectau corfforaethol.

Rheolwyr Gwasanaeth yw perchnogion a rheolwyr risgiau, ac sy'n gyfrifol am weithredu camau cywiro i fynd i'r afael â diffygion mewn prosesau a rheolaethau. Mae Penaethiaid Adran yn asesu'r risgiau mae rheolwyr wedi eu hadnabod, gan gynnwys prif risgiau yn y gofrestr risg adrannol, a chefnogi mesurau lliniaru y rheolwyr. Yn ogystal â hynny, disgwylir i'r Penaethiaid Adran arsylwi patrymau ehangach a phatrymau dros y gorwel, a sicrhau fod y gofrestr risg adrannol yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

Cyfrifoldeb y Grŵp Rheoli yw sicrhau fod Risgiau Trawsadrannol yn derbyn sylw haeddiannol. Mae'r camau i reoli Risgiau Corfforaethol wedi eu hymgorffori yn y Cynllun Strategol 2013-2016.

***Canu'r gloch a derbyn cwynion y cyhoedd***

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Polisi a Threfniadau Canu'r Gloch, cynllun sy'n rhoi ffordd ddiogel a dibynadwy i weithwyr sôn yn ddidwyll am unrhyw bryderon am ymddygiad anghyfreithlon, twyllodrus neu lygredig, camweinyddu ariannol, perygl i'r cyhoedd neu'r amgylchedd, cam-drin cleientiaid, ayb. Mae gan y Cyngor drefn safonol ar hyd y cyngor i ddeilio gyda chwynion, ond gyda threfn ar wahân ar gyfer cwynion yn ymwneud â Gwasanaethau Cymdeithasol.

### 3.6 Pwyllgor Archwilio

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, y Pwyllgor Archwilio yw'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu".

Yn ystod 2012/13 roedd gan y Cyngor Bwyllgor Archwilio oedd yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau statudol yn unol â Rhan 81 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Cyflwynwyd Cylch Gorchwyl drafft i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf 2012, oedd yn diffinio Rôl a Swyddogaethau'r Pwyllgor, oedd yn gyson â'r gofynion statudol hyn.

Roedd gweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio yn ystod 2012/13 yn cynnwys:

- Craffu, herio a derbyn y Datganiad o'r Cyfrifon (yn amodol ar archwiliad) (12 Gorffennaf 2012).
- Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12 a'r cyfnod ers dyddiad y fantolen (12 Gorffennaf 2012).
- Cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol diwygiedig ar gyfer Cyngor Gwynedd a Cronfa Bensiwn Gwynedd, derbyn adroddiadau perthnasol Swyddfa Archwilio Cymru, ac awdurdodi'r Pennaeth Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor i arwyddo'r "llythyrau cynrychiolaeth" a'u cyflwyno i Archwilydd Penodedig Swyddfa Archwilio Cymru (27 Medi 2012).
- Derbyn cofrestr o adroddiadau archwiliwyr allanol a rheoleiddwyr (27 Medi 2012 a 14 Chwefror 2013).
- Craffu a herio y Strategaeth Ariannol, er mwyn derbyn sicrwydd ei fod yn cyfarch y risgiau perthnasol ac yn rhoddi sylw priodol i'r risgiau a wynebir tros y cyfnod pedair blynedd i ddod (14 Chwefror 2013).
- Craffu, herio a phenderfynu argymell i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, y Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol am 2013/14, y Dangosyddion Darbodus a'r Atodlenni Rheolaeth Trysorlys (14 Chwefror 2013).
- Derbyn adroddiadau chwarterol am gynnyrch gwaith Archwilio Mewnol.

***Archwilio Mewnol***

Yn ystod 2012/13 darparwyd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn unol â Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig. Cymeradwywyd y Cylch Gorchwyl diweddaraf ar gyfer Archwilio Mewnol gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 27 Medi 2012. Mae Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, sydd yn rhan o'r Cyfansoddiad, yn rhoi'r grym angenrheidiol i Archwilio Mewnol er mwyn cyflawni ei rôl yn effeithiol. Mae'r trefniadau sydd yn eu lle wedi eu dylunio i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Côd Ymarfer. Maent hefyd yn cynorthwyo'r Cyngor i gynnal trefniadau rhoi sicrwydd sy'n cydymffurfio â'r gofynion llywodraethu yn *Natganiad CIPFA ar Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol*.

Roedd Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2012/13 yn seiliedig ar Stategaeth Archwilio Mewnol 2012-15. Roedd y cynllun terfynol yn cynnwys 100 darn o waith. Yn ychwanegol i hynny, cwblheir gwaith dilyniant er mwyn sicrhau fod gwendidau mewn rheolaeth sy'n cael eu hamlygu mewn archwiliadau yn derbyn sylw. Derbyniodd 89% o archwiliadau dilyniant farn "Derbyniol" neu "Rhagorol" yn ystod 2012/13. Mae hyn yn awgrymu fod trefniadau cadarn o fewn yr awdurdod i weithredu argymhellion archwilio er mwyn cryfhau rheolaethau mewnol a rheoli risg.

Yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA, mae'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn paratoi adroddiad blynyddol sydd yn crynhoi canlyniad gwaith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn ar y system gyflawn o reolaeth fewnol yn yr awdurdod.

### 3.7 Cydymffurfiaeth â Chyfreithiau a Rheoliadau perthnasol

Cyn i'r Weithrediaeth weithredu eu pŵer, unai fel unigolion neu fel Cabinet, rhaid iddynt dderbyn cyngor y Prif Weithredwr, Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid, er mwyn sicrhau fod unrhyw benderfyniadau a wneir yn gyfreithlon a phriodol.

Wedi i'r Weithrediaeth wneud unrhyw benderfyniad ffurfiol caiff taflen penderfyniad ei chyhoeddi sy'n nodi'r penderfyniad, y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad hwnnw, unrhyw ystyriaethau neu ddadleuon eraill (gan gynnwys goblygiadau polisi ar y penderfyniad), yn ogystal â sylwadau'r swyddogion statudol ac unigolion perthnasol eraill.

Mae gan y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol drefniadau i dderbyn gwybodaeth ddiweddaru am unrhyw ddatblygiadau deddfwriaethol newydd trwy danysgrifiadau i ddeunyddiau cyfeiriadol masnachol ynghyd â thrwy aelodaeth o'r grŵp proffesiynol "Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol" (LLG). Trefniadau cyfansoddiadol y Cyngor ydi fod y cyfrifoldeb gweithredol am unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn disgyn ar y pennaeth adran perthnasol ac os oes amheuaeth ynglŷn a pha adran, mae'r penderfyniad i'w wneud gan y Prif Weithredwr.

Mae'r gweithdrefnau sydd yn eu lle yn caniatáu i'r Pennaeth Cyllid gyflawni ei ddyletswyddau'n llawn, ac yn cynorthwyo'r Cyngor i gynnal trefniadau rheolaeth ariannol sy'n cydymffurfio â'r gofynion llywodraethu yn *Natganiad CIPFA ar Rôl y Prif Ariannol Swyddog mewn Llywodraeth Leol*. Y Pennaeth Cyllid yw'r Swyddog sydd yn gyfrifol am adrodd yn unol ag Adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Lleol 1988 petai'r Cyngor wedi, neu mae'n debygol o wneud, gwariant anghyfreithlon.

## 3.8 Hyfforddi a Datblygu Aelodau a Rheolwyr

***Hyfforddiant Aelodau***

Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer hyfforddi a datblygu aelodau. Mae trefn anwytho yn ei le ar gyfer y cyfnod ar ôl pob etholiad ac mae rhaglen o sesiynau hyfforddiant (gyda dyddiadau wedi eu pennu ymlaen llaw) wedi ei gynllunio ar gyfer pob blwyddyn. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn ymateb i'r disgwyliad newydd bod y Cyngor yn cynnig adolygiad blynyddol o anghenion hyfforddi a datblygu aelod ac, yn amodol ar ymateb aelodau i'r cynnig, byddwn yn cynnig y cyfle i lunio cynlluniau datblygu personol iddynt.

***Cynllun Datblygu a Hyfforddi Swyddogion***

Mae rhaglen hyfforddi yn ei le ar gyfer pob swyddog o'r Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi dylunio matrics hyfforddi ar gyfer swyddogion ac wedi dynodi 6 categori hyfforddi: Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol, Penaethiaid, Rheolwyr, Arweinwyr Maes, Goruchwylwyr, Staff a Gweithwyr Uniongyrchol. Defnyddiwyd nodweddion penodol ar gyfer adnabod categori hyfforddi priodol aelod o staff. Mae rhaglen hyfforddi wedi ei lunio ar gyfer pob categori.

Mae'r broses Adolygu Perfformiad yn rhan o System Rheoli Perfformiad Cyngor Gwynedd sy'n cefnogi gwerthoedd y Cyngor. Disgwylir i holl swyddogion y Cyngor fod yn destun gwerthusiad o leiaf unwaith y flwyddyn.

## 3.9 Partneriaethau a Chydweithio

Yn y flwyddyn diwethaf, mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi ail-edrych ar drefniadau ei bartneriaethau strategol. Arweiniodd y Prosiect Rhesymoli Partneriaethau at greu un strwythur partneriaeth strategol newydd ar draws Gwynedd a Mon yn y prif feysydd strategol (Strategaeth Gymunedol, Plant a Phobl Ifanc, Iechyd, Gofal a Lles a Diogelwch Cymunedol). Mae'r drefn hynny yn dechrau gweithredu yn 2013 a byddwn yn rhoi sylw i effeithlonrwydd y trefniadau hynny yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Cyngor wedi datblygu'r meini prawf llwyddiant canlynol sydd angen eu bodloni pan yn ystyried unrhyw fenter i gydweithio:

- Manteision busnes cadarnhaol i'r Cyngor yn nhermau ariannol, perfformiad a gwella gwydnwch gwasanaeth.
- Gwell elw ar ein buddsoddiad, o safbwynt amser swyddogion ac aelodau a chostau eraill, o gymharu â chyfleoedd amgen am fuddion busnes a allai fod yn gydweithiol eu natur neu beidio.
- Gwarchod a chefnogi statws yr iaith Gymraeg yng Ngwynedd a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r sir.

- Trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd derbyniol.
- Cadw ein rôl comisiynu.
- Dosbarthiad teg o gyfleoedd cyflogaeth.
- Lefelau derbyniol o risg.
- Yn nhermau daearyddiaeth, cydweithio ar draws ardaloedd sy'n dderbyniol i Gyngor Gwynedd (h.y. nid y patrwm cydweithio rhanbarthol o reidrwydd).
- Amserlenni realistig.

**Rhan 4: EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd wedi ei lywio gan waith y rheolwyr gweithredol o fewn yr awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol, yn ogystal â sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu eraill ac arolygiaethau.

Sefydlwyd **Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu** yn ystod y flwyddyn, er mwyn cadw golwg parhaus, mwy disgybledig ar faterion llywodraethu, codi ymwybyddiaeth ehangach ohonynt, a hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Grŵp yn cynnwys Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro, Uwch Reolwr y Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol a'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg.

Cyfrannodd y canlynol i lunio asesiad o effeithiolrwydd y fframwaith lywodraethu yn ystod y flwyddyn:

- Yr ystyriaeth a roddwyd i anghenion llywodraethu yn y broses o baratoi Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013 – 2017, gan gynnwys ystyriaeth o'r risgiau strategol arwyddocaol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Cynhaliwyd cyfres o weithdai ar gyfer Aelodau'r Cabinet yn ystod Ionawr 2013 i drafod y prif faterion sydd angen sylw gan y Cyngor ar lefel strategol, gan gynnwys materion llywodraethu.
- Adolygiad o'r trefniadau llywodraethu gan y Pennaeth Democratiaeth a Chyfrethiol.
- Asesiadau gan aelodau a prif swyddogion wrth ddatblygu cyfundrefn "Ffordd Gwynedd", sef yr un weledigaeth gyffredin a chlir i bawb yn y Cyngor ynglŷn â'r diwylliant corfforaethol sydd ei angen os am sicrhau fod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Un canlyniad disgwyliedig o "Ffordd Gwynedd" yw sicrhau cyfundrefn perfformiad sy'n mesur os ydym yn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd ac yn rhoi gwerth am arian iddynt.
- Gwaith Archwilio Mewnol, wedi ei grynhoi yn Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn Ebrill 2013. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y sicrwydd cyffredinol canlynol: ***"Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2012/13, yn fy marn i mae gan Cyngor Gwynedd fframwaith gadarn o reolaeth fewnol. Mae hyn yn cynorthwyo i roi hyder yn y trefniadau i sicrhau cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a cryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod argymhellion i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol. Er hyn, mae angen datblygu ymhellach y prosesau ffurfiol o safbwynt cofnodi risgiau yn unedau busnes y Cyngor"*.**
- Adolygiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru o'r gwasanaeth Archwilio Mewnol. Cyflwynwyd hwn i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf 2012.
- Ystyriaeth o ganlyniadau gwaith archwilwyr a rheoleiddwyr allanol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn a'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).
- Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cadw trosolwg ar drefniadau rheolaeth fewnol y Cyngor yn rheolaidd trwy'r flwyddyn, drwy ystyried gwaith archwilwyr mewnol ac allanol.
- Cafodd Strategaeth Ariannol 2013 – 2017 ei herio gan y Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor llawn cyn iddo gael ei fabwysiadu.

- Trefniadau Gwrth-dwyll, Gwrth-Lygredigaeth a Gwrth-Lwgrwobrwyo’r Cyngor wedi cael eu hasesu, gan ddefnyddio fframwaith asesu CIPFA. Cafodd Strategaeth newydd ei ddatblygu yn dilyn yr asesiad yma a’i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ar 29 Ionawr 2013.
- Y Pwyllgor Pensiynau wedi craffu Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf 2012.
- Roedd y broses o baratoi Cynllun Archwilio Mewnol 2013/14 yn cynnwys asesiad o’r Fframwaith Llywodraethu, fel y’i crynhoir yn y Côd Llywodraethu Lleol, er mwyn adnabod meysydd sydd i dderbyn sylw gan Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o’r Côd ei hun.
- Asesiad gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu o’r Fframwaith Llywodraethu Lleol, er mwyn adnabod y meysydd llywodraethu y mae angen rhoi sylw iddynt yn y blynyddoedd nesaf, gan nodi bod y mwyafrif o’r materion hyn yn faterion a fydd yn cymryd mwy na blwyddyn i’w datrus.

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Archwilio, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â’r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae’r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod.

**Rhan 5: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

Mae'r prosesau a ddisgrifir mewn rhannau blaenorol o'r datganiad hwn yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i adnabod y materion llywodraethu arwyddocaol sydd angen sylw.

| Mater sydd wedi ei adnabod | Trefniadau i Ymateb | Cyfrifoldeb Pwy? |
|---|---|---|
| ***Trefniadau Ymgysylltu***. Mae angen cryfhau'r cyswllt rhwng y Cyngor a'r etholwyr drwy Aelodau rheng flaen drwy sefydlu Cynulliadau Ardal newydd. Bydd hyn hefyd yn ymgorffori ymateb y Cyngor i ymgynghoriadau, a galluogi'r Cyngor i arddangos sut yr ydym yn gwrando ar ac yn ymateb i negeseuon. | Bydd un o brosiectau'r weledigaeth "Ffordd Gwynedd", sef "Ymgysylltu", yn mynd i'r afael â hyn. | Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| ***Gwneud Penderfyniadau***. Angen sylw i'r Dinesydd yn y prosesau penderfynu. | Mae hyn y greiddiol i egwyddorion "Ffordd Gwynedd". Tra mae yna broses ar gyfer sicrhau fod hyn yn digwydd dengys asesiad a wnaed ar gyfer paratoi ar gyfer Ffordd Gwynedd efallai nad yw'n gweithio'n gyfangwbl fel y dylai ac felly bwriad un o'r prosiectau yn y cynllun "Ffordd Gwynedd" yw sicrhau fod y gyfundrefn Cabinet yn effeithiol. | Swyddog Monitro |
| ***Hyfforddi***. Mae angen diweddaru trefniadau hyfforddi aelodau a swyddogion, yn arbennig am y rolau newydd yng nghyd-destun safonau a chodau. | Mae trefniadau sylfaenol ar gyfer hyfforddi aelodau yn eu lle. Yn ystod 2013/14, byddwn yn datblygu cyfundrefn i ymateb i ofynion aelodau am gynlluniau datblygu personol i'w cynorthwyo yn eu gwaith. | Pennaeth Strategol a Gwella / Swyddog Monitro |
| ***Craffu***. Mae angen i Craffu ganolbwyntio fwyfwy ar ganlyniadau i'r Dinesydd. | Wedi ei gynnwys yn un o brosiectau "Ffordd Gwynedd", sef atgyfnerthu trefniadau Craffu fydd yn canolbwyntio ar effaith gwasanaethau ar ein pobl. | Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol |
| ***Trefniadau Asesu Effaith***. Mae gan y Cyngor drefniadau yn eu lle i asesu effaith mewn gwahanol feysydd, ond nid yw'r trefniadau yn rhoi un trosolwg ar gyfer y materion i gyd mewn cyfuniad. | Mae gennym drefniadau asesu effaith ond yn ystod y flwyddyn byddwn yn asesu yn benodol i ba raddau y maent yn effeithiol. | Uwch Reolwr Archwilio a Risg gyda chymorth y Grwp Asesu Trefniadau Llywodraethu |
| ***Cyfundrefn Rheoli Risg.*** Er fod y trefniadau i adnabod a chofrestru risgiau corfforaethol a thrawsadrannol yn effeithiol, mae gwendidau wedi eu hadnabod yn y trefniadau ar lefel adran. | Bydd y Gwasanaethau Archwilio a Risg, gyda chymorth swyddogion Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd, yn hyrwyddo cyfundrefn a chanllawiau ar gyfer pob Pennaeth Adran. | Uwch Reolwr Archwilio a Risg |

**Rhan 6: BARN**

Rydym yn bwriadu cymryd camau i ddelio gyda'r materion uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

| | |
|---|---|
| ____________________ | ____________________ |
| **HARRY THOMAS** | **Cyng. DYFED WYN EDWARDS** |
| **PRIF WEITHREDWR CYNGOR GWYNEDD** | **ARWEINYDD CYNGOR GWYNEDD** |
| **DYDDIAD** | **DYDDIAD** |